

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MERCHER, 13 HYDREF 2021

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Cunnah, Hopkins, Joyce, Phillips, Mia Rees a/ac Singh

Aelodau Cyfetholedig: Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

Mai John (Cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

72 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am dosbarth y flwyddynsenoldeb gan Patriciad Arlotte a'r Cynghorydd Siân-Elin Melbourne Dywedodd y Cynghorydd Hopkins y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod am 5.00 i fod yn bresennol ym musnes arall y Cyngor ond y byddai'n ail-ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach. Dywedodd y Cynghorydd Mia Rees y byddai'n rhaid iddi adael y cyfarfod am 6.30 pm.

73 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Mike Phillips fuddiant personol yn Eitem 9 ar yr Agenda ar y sail bod ganddo aelod o'r teulu sy'n derbyn darpariaeth ADY.

74 : COFNODION

Gohiriwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

75 : DIWEDDARIAD Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Graham Robb, (Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant) ac Angharad Thomas (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, pan gyfeiriodd at y gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid am y tro cyntaf a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Gwahoddwyd Graham Robb i wneud datganiad, ac esboniodd fod yr arwyddion cyntaf o effaith gwaith gwella yn dod i'r amlwg. Amlinellodd yr angen i fod yn ofalus ynghylch y gostyngiadau y cyfeiriodd y Cynghorydd Hinchey atynt a phwysleisiodd yr angen am welliant parhaus. Erys heriau sylweddol o ran perfformiad, darpariaeth ac effaith ar fywydau plant.

Rhoddodd Angharad Thomas y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud a chyfeiriodd at yr astudiaeth achos a gyflwynwyd yn y papurau.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad gan Swyddogion ar y llwyddiannau allweddol yr oeddent am dynnu sylw atynt a'r prif heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwaith dyfodiaid am y tro cyntaf yn dangos bod pobl ifanc yn cael eu hatal rhag ymuno â'r system cyfiawnder ieuencid. Roedd y ffocws ar bartneriaid a chael llwybrau gwell i bobl ifanc wedi cyfrannu at hyn. Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cyfeirio at y cyfeiriad teithio a rennir gyda phartneriaid fel un arwyddocaol. Bydd her o ran dangos yr effaith ar rai o'r plant mwyaf heriol. Bydd modd gwneud gwahaniaeth i rai ond nid pob un, a bydd y rhai olaf yn aros yn y system gyfiawnder. Mae'n bwysig parhau i weithio i wella canlyniadau hyd yn oed os bydd oedi yn y canlyniad. Bu cynnydd sylweddol mewn gwaith partneriaeth. Cafwyd y manylion am asesiad o anghenion strategol ar y cyd sy'n galluogi holi am orgynrychiolaeth yn y system cyfiawnder ieuencid gan gymunedau penodol. Mae gwaith pwysig yn cael ei wneud am y tro cyntaf am Anghenion Dysgu Ychwanegol plant yn y system cyfiawnder ieuencid. Mae hyn yn ganlyniad i gydweithio.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd yr achosion cynyddol o drais yn erbyn y person y cyfeirir ato yn Adroddiad Gwasanaethau Plant C1 ymhlith yr achosion heriol y cyfeiriwyd atynt uchod. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bu cynnydd ym mhob categori o drais sy'n effeithio ar bobl ifanc yn y chwarter diwethaf. Efallai y bydd rhai o'r plant dan sylw yn cyflwyno'r nifer uchaf o faterion ond efallai na fydd rhai ohonynt yn gwneud felly. Gallai trais fod yn ddangosydd allweddol o faterion difrifol ac felly hefyd ailadrodd troseddu. Gallai plentyn sy'n mynd i mewn i'r system gyfiawnder am y tro cyntaf gyflwyno'r risg uchaf. Neges allweddol wrth symud ymlaen yw sut i weithio gyda Chymorth Cynnar, Diogel a strategaethau eraill i sicrhau bod atal i fyny'r gadwyn ar waith.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am yr effaith ar allu'r gwasanaeth o absenoldeb oherwydd salwch staff a swyddi gwag. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 3 rheolwr ar waith gan gynnwys 2 asiantaeth sy'n cwmpasu hyd nes y bydd yr ailstrwythuro wedi'i gwblhau. O dan y lefel reoli, mae 2 o'r staff sydd i ffwrdd yn sâl yn dod o'r gwasanaeth cymorth dwys. Mae'r llwyth gwaith wedi'i wasgaru ar draws y gwasanaeth sy'n cyfateb i'r bwriad y dylid rhannu gwaith ar draws y gwasanaeth ac nid yw achosion risg uchel yn canolbwyntio ar un gweithiwr. Mae prosesau cynllunio achos yn defnyddio cryfder y tîm cyfan. Nid oes unrhyw effaith ar bobl ifanc o lai o gapasiti. Mae'r llwyth achosion wedi gostwng oherwydd cau achosion a thynhau'r meini prawf. Bu effaith ar oruchwyliaeth oherwydd salwch staff, Covid, a newid yn y rheolwyr. Mae'r staff yn cael eu hannog i ymgymryd â chymorth gan gymheiriaid, goruchwyliaeth grŵp a gwiriadau rheolaidd.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfweiliadau wedi'u cynnal ar gyfer swyddi rheoli newydd.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfran fawr o dosbarth y flwyddynsenoldeb oherwydd salwch staff yn deillio o gamau'n cael eu cymryd o dan bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol i ddod â phobl i gyfrif. Dywedwyd wrth yr

Aelodau ymhellach fod problemau gyda goruchwyliaeth mewn rhai achosion yn fater etifeddiaeth yn ymwneud â diffyg goruchwyliaeth a gyflawnir gan reolwyr.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod arolwg adborth ymgysylltu â dioddefwyr yn cael ei gynnal a oedd yn arloesol ac yn brin. Roedd nifer y cyfranogwyr yn isel o hyd oherwydd ei fod yn arolwg newydd. Dangosodd yr arolwg ymrwymiad i gael barn dioddefwyr am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.
- Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod a oedd llacio cyfyngiadau Covid wedi arwain at staff yn ei chael yn haws ymgysylltu â phobl ifanc. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ymlacio cyfyngiadau yn cael ei groesawu. Roedd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnal y cyfyngiadau a oedd ar waith o hyd. Roedd pobl wedi cymryd rhan drwy'r defnydd o WhatsApp a Chromebooks sy'n caniatáu sgysiau i Dimau, yn ogystal â reidiau beiciau a theithiau cerdded gydag ymbellhau cymdeithasol. Nid yw staff eto'n gallu dod â phobl ifanc i mewn i'r swyddfa fel y mynnent, ond maent yn gweld pobl ifanc yn yr ysgol. Wrth symud ymlaen bydd model hybrid yn cael ei ddefnyddio.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

76 : YN NES AT GARTREF / DATBLYGU OPSIYNAU LLETY I BLANT A PHOBL IFANC YNG NGHAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant), a Kate Hustler (Rheolwr Gweithredol, Gofal Dirprwy Deuluoedd) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad, pan gyfeiriodd at hanes opsiynau llety agosach i'r cartref/datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc a chyfeiriodd at y llety o ansawdd uchel a ddarperir yn Falconwood.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Aelodau amlinellu datblygiad opsiynau llety ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau fod lleoliadau y tu allan i'r sir yn cynyddu a bod ganddynt ddiddordeb yn y targed ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir dros y 2 flynedd nesaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cysyniad y tu allan i'r sir yn gamarweiniol oherwydd maint a chynllun Caerdydd. Mae mwy na 70% o leoliadau y tu allan i'r sir o fewn awr o amser teithio i Gaerdydd. Mae'r cysyniad Agosach at y cartref yn gwneud mwy o synnwyr. Mae'r hyn sy'n angenrheidiol i letya a chefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd yn bwysicach.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd yn ddymunol lleoli plant a phobl ifanc ymhell o Gaerdydd pan nad yw er eu lles gorau, ond weithiau mae angen

gwneud hynny pan nad yw'r adnoddau ar gael yn lleol. Nid yw'n synhwyrol gosod targedau ar gyfer nifer y plant a leolir yn lleol, ond y bwriad bob amser fyddai i blant gadw eu cysylltiadau â'u hysgolion, eu teuluoedd a'u cymunedau cyn belled â'u bod yn gallu, a chael mynediad at gyfleoedd gyrfa lleol wrth adael gofal.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod canran uchel o blant a phobl ifanc yn byw gyda theulu neu ffrindiau y tu allan i Gaerdydd neu Gymru, ond roedd o fudd iddynt wneud hynny. Y nod yw i blant Caerdydd fod yng nghartrefi Caerdydd. Pan fydd darparwr a ffeirir yng Nghaerdydd, nodir plant sy'n barod ac yn gallu symud yn ôl i Gaerdydd. Mae'n angenrheidiol o hyd lleoli rhai plant y tu allan i Gaerdydd oherwydd y risgiau iddynt yn y gymuned leol. Nid yw rhai plant a leolir y tu allan yn dymuno dychwelyd am eu bod wedi setlo ac yn gwneud yn dda lle y maent. Nid yw'n bosibl darparu digon o lety yn fewnol o hyd ac mae'n rhaid dibynnu o hyd ar ddarparwyr allanol yn y sector preifat, er bod y cydbwysedd yn symud.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn yr hyn a oedd yn ddarpariaeth gyfyngedig iawn ar y dechrau yng Nghaerdydd. P'un a yw'r Cyngor yn darparu'r gwasanaeth cymorth yn uniongyrchol, mae'n ddymunol mai'r Cyngor sy'n berchen ar y cyfleuster. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor rôl wrth benderfynu ar leoliadau o fewn y cyfleuster, ac mae'n caniatáu darpariaeth hyblyg os bydd anghenion yn newid. Mae bwrdd rhaglen wedi'i sefydlu ac ychwanegir cynlluniau newydd. Mae rhai yn benodol ar gyfer plant. Mae angen cynyddol am y Porth Pobl Ifanc. Mae disgwyl tendrau ar gyfer The Citadel a fydd yn darparu llety hunangynhwysol ar gyfer pobl 16 oed ac yn hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r cydweithio ac alinio'r gwasanaeth sy'n amlwg yn glodwiw.
- Trafododd yr Aelodau gyswilt cymunedol. Weithiau mae'n rhaid i gynghorwyr ddelio ag aelodau o'r gymuned nad ydynt yn cydymdeimlo ag anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc mewn cartrefi. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y broses o ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned lle mae llety newydd yn cael ei gynllunio neu ar y gweill. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor, yn achos Falconwood, wedi dechrau ymgysylltu â chymdogion tra bod y gwaith datblygu'n mynd rhagddo, ac mae'r cymdogion wedi bod yn gefnogol. Gwahoddwyd yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol i Falconwood ac maent yn gyfarwydd â'r staff a'r preswylwyr. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn timau chwaraeon lleol ac mae ymdrech yn cael ei wneud i ymgorffori'r datblygiad yn y gymuned. Mae'r datblygiad wedi cael derbyniad da, rhywbeth nad yw'n wir am yr holl ddatblygiadau. Byddai'r Cyngor yn ceisio dilyn yr un broses â datblygiadau mewnol yn y dyfodol.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach mai'r allwedd oedd cael yr eiddo cywir yn y lle cywir. Mae angen mynd i'r afael â materion gofodol sy'n effeithio ar y gymuned leol. Roedd yn bwysig cofio mai cyfrifoldeb corfforaethol y Cyngor oedd y plant ac roedd agen i'r Cyngor eu hamddiffyn. Roedd rhaid i gynghorwyr ymgysylltu'n gadarnhaol â chymunedau lleol i gefnogi datblygiadau o'r fath. Mae'n bwysig na ddylai'r plant gael eu hynysu ond y dylid eu hymgorffori yn y gymuned. Fel arweinwyr a chynrychiolwyr cymunedol, mae angen i gynghorwyr fod ar flaen y gad yn hynny o beth. Mae'n sgwrs anodd weithiau ond yn un sydd angen digwydd.

- Atgoffwyd yr Aelodau bod gwahaniaeth rhwng darpariaeth y Cyngor a darpariaeth annibynnol a dywedwyd bod y Cyngor yn adolygu ac yn gwella prosesau, yn meithrin cysylltiadau ac yn trafod cynlluniau gyda darparwyr a ffefrir a chymunedau lleol. Roedd hyn yn y camau cynnar o hyd. Bydd y Cyngor yn dibynnu ar y sector annibynnol am beth amser. Mae'r Cyngor yn mynd ati i sicrhau, pan fydd darparwyr yn dod i Gaerdydd, bod y lleoedd yn cael eu llenwi â phlant o Gaerdydd ac nid plant o fannau eraill. Mae hefyd yn mynd ati i sicrhau bod darparwyr annibynnol a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gymuned.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cost uchel eiddo yng Nghaerdydd hefyd wedi arwain at ddibyniaeth ar ddarparwyr y tu allan i'r ddinas. Roedd Llywodraeth Cymru bellach yn cefnogi'r Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth yn y ddinas.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai gan y Cyngor y gallu i ddarparu lleoliadau preswyl parhaol i blant nad oeddent yn gallu mynd i ofal maeth ar ôl cael eu hasesu, dychwelyd i'r teulu neu fynd i leoliad perthynas. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'n glir ar ôl asesu bod angen i rai plant fod mewn uned breswyl fach. Y gobaith yw y byddai'r Cyngor yn gallu eu cefnogi mewn uned leol fach lle byddent yn gallu mynd i ysgol a chael cysylltiadau â theulu lle bo hynny'n bosibl.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod adborth yn dangos bod llawer o ddarparwyr yn ailystyried buddsoddi yng Nghymru rhag ofn na allant gadw eu helw. Nid yw elw o reidrydd yn beth drwg yn dibynnu ar yr hyn a wneir gydag ef. Bydd y Cyngor yn parhau i ddibynnu ar y sector annibynnol ers peth amser oherwydd na fydd yn gallu gwneud darpariaeth fewnol ddigonol am o leiaf 18 mis.
- Canmolodd yr Aelodau'r staff yng nghanolfan asesu Falconwood ar eu hymrwymiad i'r plant yn eu gofal. Gwahoddodd yr Aelodau Swyddogion i ddychwelyd i'r Pwyllgor gyda'r straeon llwyddiant o'r ganolfan ymhen 6 mis.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

77 : LLYS CYFFURIAU AC ALCOHOL TEULUOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant), Natasha Hilderley, Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol) a Vicki Morris (Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Arloesi Cyfiawnder) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad lle y cyfeiriodd at natur uchel ei broffil ac arloesol y Llys Cyffuriau ac Alcohol Teuluol.

Rhodddwyd cyflwyniad manwl i'r Aelodau gan Vicki Morris a Natasha Hilderley, pan oeddent yn rhoi trosolwg o'r prosiect a'r cynlluniau a'r cynnydd hyd yma.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Canmolodd yr Aelodau Swyddogion ar y prosiect a'r cyflwyniad a mynegodd awydd i gael cyngor ar gynnydd yn y dyfodol.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y prosiect yn gynllun peilot i Gymru a byddai iddo broffil uchel. Byddai'n ddoeth astudio data gan awdurdodau yn Lloegr at ddibenion cymharu a meincnodi unrhyw lwyddiant.
- Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y ffordd yr oedd tîm y prosiect wedi casglu gwybodaeth ac o ba ffynonellau. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod galwad wedi'i gwneud ar arbenigedd y tîm yn y Ganolfan Arloesi Cymdeithasol i ddeall pwy oedd angen ymgysylltu â nhw. Bu ymrwymiad ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i gydweithio. Mae'r Grŵp Llywio wedi gofyn am ymrwymiad ac wedi cynnwys llawer o sgysiau. Mae cael y broses IFST gyntaf wedi caniatáu i'r broses symud ymlaen yn gyflymach nag yn Lloegr. Mae cydweithio agos â Llywodraeth Cymru, Aelodau Etholedig a phartneriaid allweddol mewn Cyfarwyddiaethau wedi caniatáu llunio Gweithgor gydag ewyllys, angerdd a phendantwydd.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y prosiect yn fodel ar gyfer yr hyn yr hoffai'r Cyngor ei gyflawni ar draws y Gwasanaethau i Blant ac yn gyfrwng i newid a gwella gwasanaethau. Ni fyddai wedi bod yn bosibl heb IFST na gwaith ac ymrwymiad Swyddogion ac aelodau o'r tîm sydd wedi perfformio'n eithriadol. Bydd y Llys yn gwella profiad teuluoedd yn fawr.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod newid diwylliannol bob amser yn anodd ei gyflawni ond roedd yn werth chweil pan oedd felly. Roedd Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cydweithio'n arbennig o dda ac roedd y farnwriaeth hefyd wedi bod yn gefnogol. Roedd yn ddefnyddiol bod aelodau o dîm y prosiect eisoes wedi cyflawni canlyniadau tebyg. Dysgwyd llawer iawn y gellid mynd ag ef yn ôl i Loegr.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

78 : PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT - CH1 2021-22

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad pan dalodd deyrnged i Swyddogion a staff y Gwasanaethau Plant am eu perfformiad yn ystod y pandemig, gan nodi bod nifer y plant sy'n cael eu dychwelyd adref wedi cynyddu. Mae pwysau o hyd ac mae gwaith wedi parhau i ailfodelu'r gwasanaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau a fyddai modd ehangu Caerdydd ar Waith yn asiantaeth recriwtio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn hytrach na defnyddio asiantaethau allanol. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd posibiliadau Caerdydd ar Waith wedi'u defnyddio'n llawn. Roedd y Cyngor wedi dechrau defnyddio'r gwasanaeth mewn perthynas â gweithwyr gofal ond nid oedd rheswm pam na ellid ehangu hynny i gynnwys amrywiaeth o staff eraill lle mae anawsterau recriwtio. Mae'r cysyniad o ddatblygu staff y Cyngor ei hun yn mynnu eu bod yn cael eu recriwtio cyn-gymhwys, a fydd yn golygu bod angen prentisiaethau a hyfforddeiaethau. Mae angen cyfleoedd i weithwyr cymorth a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gael cronfa o bobl i'w datblygu a'u hyfforddi.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd ymweliadau wyneb yn wyneb â phlant wedi dychwelyd i'r lefel yr oeddent cyn y pandemig, a'r hyn a ddysgwyd o brofiad ymweliadau rhithwir. Dywedwyd wrth yr Aelodau y dylai ymweliadau wyneb yn wyneb fod ar lefelau cyn y pandemig cyn bo hir ond roedd rhywfaint o oedi oherwydd y galw. Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod tipyn wedi'i ddysgu o ymweliadau rhithwir. Yr hyn sy'n bwysig yw'r hyn sy'n gweddu fwyaf i'r person ifanc. Roedd rhai pobl ifanc yn hapus iawn gyda chyswllt o bell tra bod eraill yn anhapus. Mae gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r dechnoleg wedi cael eu harchwilio. Ar ddechrau'r pandemig pan oedd ond yn bosibl ymweld â phlant sydd fwyaf mewn perygl, roedd pryder ei bod yn anodd bod yn sicr o'r sefyllfa wirioneddol i lawer o bobl heb fod mewn tai pobl. I rai pobl ifanc, efallai y byddai'n bwysig cael gwybodaeth uniongyrchol am eu sefyllfa gartref
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am unrhyw newidiadau ymarferol mewn perthynas â strategaethau atal, fel gwell cynadleddau perfformiad ac adolygu i blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gweithwyr cymdeithasol yn dal i ymweld â phlant pan oedd angen neu'n ddiogel gwneud hynny yn ystod y pandemig. Nid oedd y plant yn yr ysgol ac nid oedd canolfannau Blynyddoedd Cynnar ar agor. Cynyddodd nifer y plant ar y Gofrestr fel ei bod yn anodd sicrhau eu bod yn cael eu gweld. Cyflwynwyd Cydgysylltydd Cynhadledd Amddiffyn Plant ychwanegol i adolygu penderfyniadau yn gynnar. O ganlyniad, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n mynd ar y Gofrestr.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod canolfan adolygu yn cael ei chyflwyno a fydd yn caniatáu i staff ddeall yn well ble mae plant ar y llwybr a'u camu i fyny neu i lawr mewn ffordd amserol. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu canolfannau ymyrraeth i ddarparu cymorth yn fewnol. Mae cymorth cofleidiol yn cael ei gynyddu i atal plant rhag dod i ofal neu eu camu i lawr yn gyflymach. Er bod pwysau sylweddol yn parhau mae'r Cyngor yn symud ymlaen gydag arloesedd a datblygiad, a fydd yn helpu i ddenu gweithwyr cymdeithasol.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am dystiolaeth o berthynas rhwng cynyddu trais ymysg pobl ifanc a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac a oedd digon o gydweithrediad gan bartneriaid i fynd i'r afael ag ef. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi datblygu'r Model Diogel ar gyfer diogelu pobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol neu droseddol. Mae'r Model Diogel yn ceisio

deall beth sy'n digwydd mewn gwahanol gymunedau a darparu cymorth cofleidiol i blant yn hytrach na'u gweld fel problem. Mae'n caniatáu rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r Heddlu a allai gael effaith ar blant. Mae adolygiadau rheoli mewnol yn mynd rhagddynt i ddigwyddiadau treisgar difrifol a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu ar draws y partneriaid.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

79 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: YSGOLION YR 21AIN GANRIF: EHANGU AC AILDDATBLYGU YSGOL UWCHRADD CATHAYS

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (CTY)), a Michele Duddrige-Friedl (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio a Darpariaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad pan gyfeiriodd at y papur i'r Cabinet yn adrodd yn ôl am wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol a gyhoeddwyd ynghylch y cynllun i gynyddu capasiti yn Ysgol Uwchradd Cathays, disodli adeiladau'r ysgol gyda llety adeiladu newydd, ac ehangu'r Sylfaen Adnoddau Arbenigol (SRB) bresennol ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (ASC) o 16 i 50 o leoedd.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y rhaglen Band B wedi'i chynllunio o ran mynd i'r afael â diffyg lleoedd mewn ysgolion uwchradd. Cafodd Ysgol Uwchradd Cathays ei chynnwys oherwydd ei lleoliad a'i chyflwr a dyna pam mae'r Cyngor yn parhau er gwaethaf y gwrthwynebiadau. Rhaid i'r Cyngor bwysu a mesur y pryderon a gyflwynwyd yn erbyn y nodau yr oedd yn ceisio'u cyflawni. Codwyd llawer o wrthwynebiadau ynghylch symud y trac beicio. Fodd bynnag, mae angen symud y trac er mwyn darparu lle a chaeau chwarae i'r ysgol newydd, ac i wneud darpariaeth ar gyfer mannau mynediad agored. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddarparu trac gwell a fydd yn helpu i dyfu beicio yn y ddinas. Bydd gan yr ysgol newydd gyfleusterau chwaraeon a chymunedol gwell.

Atgoffodd y Cynghorydd yr Aelodau ymhellach fod angen adolygu dalgylchoedd. Nid yw'r dalgylchoedd presennol bob amser yn rhesymegol nac yn gyfartal o ran maint gydag ysgolion sydd wedi'u lleoli'n ganolog. Bydd ehangu Ysgol Uwchradd Cathays yn ei gwneud yn gynaliadwy a bydd yn ategu'r gwaith o ddiwygio dalgylchoedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai unrhyw benderfyniad yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, a bod sylwadau wedi bod mewn perthynas â Ffordd y Goron. Archwiliwyd hyn yn fanylach a byddai'r Cyngor yn ceisio cadw Ffordd y Goron ar agor.

Derbyniwyd dros 100 o negeseuon e-bost gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r cynigion y penderfynwyd ystyried pryderon y cyhoedd o dan 5 prif bennawd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

Capasiti'r safle

Trafododd yr Aelodau a fyddai'r safle'n ddigon mawr i ddarparu ar gyfer ysgol o 1,450 o ddisgyblion a gofynnodd am eglurhad ar y gofynion sylfaenol ar gyfer ysgol o'r maint hwnnw.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai 46,000 metr sgwâr yw arwynebedd arfaethedig cyffredinol y safle, sef yr isafswm o ran maint sydd ei angen ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Bydd yr ysgol yn bodloni gofynion BB o dan safle cyfyngedig. Nid oes digon o le ar gyfer caeau glaswellt felly darperir 2 gae 3g a fyddai'n cael eu cyfrif ddwywaith o ran 2 gae glaswellt. Pe bai angen, byddai darpariaeth chwaraeon atodol ym Mharc y Mynydd Bychan. Mae'n debygol y byddai'r ysgol yn gallu, drwy amserlennu, cynyddu'r defnydd o'r gaeau 3g fel na fyddai angen cyfleusterau Parc y Mynydd Bychan arno, ond byddai darpariaeth Parc y Mynydd Bychan ar gael pe bai angen.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach y byddai ychydig mwy na 13,500 metr sgwâr ar gael ar gyfer mannau mynediad agored. Mae hyn yn fwy na'r ddarpariaeth bresennol sydd tua 12,000 metr sgwâr. Mae safle presennol yr ysgol tua 20,000 metr sgwâr nad yw'n ddigonol o dan arweiniad BB. Bydd y safle newydd yn cydymffurfio a bydd yn parhau i fod ag ardal ar gyfer GLL ac ardal trac BMX. Bydd parcio ar y cyd gyda GLL.

Trafododd yr Aelodau a oedd ffin y safle a amlinellwyd ar y map yn sefydlog neu a allai fod addasiadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cytunwyd ar y ffin gyda GLL ac ni ragwelwyd y byddai unrhyw newidiadau sylweddol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Bwletinau Adeiladu yn ddyfais mesur gallu a ddefnyddiwyd yn Lloegr a fdosbarth y flwyddynwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru fel canllawiau, ac nad ydynt yn ofyniad statudol yng Nghymru. Caniateir ar gyfer lleoliadau fel y byddent yn Lloegr lle y cyfyngir ar safleoedd.

Penderfyniad strategol ar gyfer ehangu

Trafododd yr Aelodau y penderfyniad strategol o blaid ehangu Ysgol Uwchradd Cathays i 8 dosbarth y flwyddyn a'r penderfyniad i leihau maint Ysgol Uwchradd Willows. Ymddengys mai'r dybiaeth yw y bydd Ysgol Uwchradd Cathays yn parhau i gymryd y rhan fwyaf o'i disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch. Roedd yr Aelodau'n pryderu am y goblygiadau o ran teithio ar draws y ddinas. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu am gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol o ran yr amcanestyniadau ar gyfer gostyngiad yn nifer y bobl a dderbynnir yn ystod hanner olaf y degawd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Ysgol Uwchradd Cathays yn cael ei chyflwyno oherwydd ei lleoliad canolog tra bod Ysgol Uwchradd Willows yn rhan ddeheuol y ddinas. Mae'n gweithredu ar faint mwy i leddfu'r pwysau ar ysgolion eraill. Mae'n gamsyniad mai dim ond o dde'r ddinas y mae'r pwysau'n dod. Nid mewn un dalgylch yn unig ac un ysgol y mae gormod o ordanysgrifiad. Pe bai lleoedd ychwanegol yn cael eu rhoi mewn ysgolion eraill, byddai'n dwysáu'r problemau o ran teithio ar draws dinasoedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach bod y Cyngor wedi adolygu nifer y lleoedd ysgol y byddai eu hangen. Yn wreiddiol, roedd Willows wedi'i roi i lawr ar gyfer 8 dosbarth y flwyddyn yn ogystal â Cathays, ond ers hynny mae'r Cyngor wedi

cynddosbarth y flwyddynod bod gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau. Bu'n rhaid i Cathays ehangu i 8 dosbarth y flwyddyn ond nid yw Willows yn llawn ar ei faint presennol. Bydd angen newidiadau i'r dalgylchoedd rywbryd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach bod Cathays yn bwysig i'r ddinas fel 'falf pwyso', gan fynd â phlant o ddalgylchoedd ac ardaloedd lleol. Pe na bai ar gael o faint mwy, byddai angen trosglwyddo mwy o blant ar draws y ddinas. Oherwydd ei leoliad canolog mae'n darparu hyblygrwydd lle nad yw dalgylchoedd wedi'u halinio'n berffaith. Er bod disgwyl i nifer y plant sy'n dod i mewn i'r ysgol ostwng ar ôl 2024 disgwylir iddo gynyddu eto ymhen 25 mlynedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod disgwyl i Cathays dderbyn 6-8 dosbarth y flwyddyn tan o leiaf 2028 pan ddisgwylir i'r niferoedd ostwng, a bydd yn helpu i ddelio â'r twf yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Oherwydd ei lleoliad canolog mae nifer o ddalgylchoedd eraill yn ffinio â hi. Bydd angen ad-drefnu dalgylchoedd yn y dyfodol ond bydd angen yn yr ad-drefnu bod ysgol sydd â lleoliad canolog.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a ddisgwylid y byddai Willows yn cadw mwy o'i dalgylch yn y dyfodol, a pha oblygiadau sydd i Cathays. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnig Willows yn cael ei gyflwyno a disgwylid y byddai cynnydd yn nifer y disgyblion. Daw nifer o blant sy'n mynychu Cathays ar hyn o bryd o Ysgol Gynradd Stacey. Bydd angen ystyried newidiadau dalgylchoedd ar yr adeg gywir i gasglu'r cyfuniad cywir o blant ar gyfer pob ysgol. Mae her i Willows gwrdd â'r NDC ond mae'n bwysig cael hyblygrwydd fel y gall yr ysgol dyfu.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am eglurhad ar oblygiadau datblygiadau tai yng ngogledd-ddwyrain y ddinas ac a oeddent yn golygu na fyddai nifer y plant y disgwylir iddynt fynd i mewn i Cathays ar hyn o bryd yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r datblygiadau'n cael effaith ar ysgolion yng ngogledd y ddinas a hefyd ar Cathays.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach y disgwylid y byddai'r diddordeb a'r ymddiriedaeth gymunedol yn Willows yn cael eu hadfywio i'r graddau y byddai'r ysgol yn cael ei llenwi o'r tu fewn y gymuned leol. Mae datblygiadau preswyl yn yr ardal wedi'u capio mewn perthynas â lleoliad ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr ardal. Mae Willows hefyd yn ffinio â llai o ddalgylchoedd na Cathays. Yng Nghaerdydd mae tua 900 o ddisgyblion yn amrywio o frig y tabl derbyn i'r gwaelod dros gyfnod o 12 mlynedd. Dim ond ar sail y data gweladwy, tueddiadau a dyheadau hanesyddol mewn perthynas â'r dyfodol y gall y Cyngor wneud amcanestyniadau. Mae'r Cyngor o'r farn bod y gymysgedd yn iawn rhwng y ddwy ysgol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael a'r cyfle i ddatblygu yn y CDLI.

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn anodd rhagweld cyfraddau geni yn y dyfodol a'r galw am ysgolion penodol.

Goblygiadau ariannol

Gofynnwyd am eglurhad i'r Aelodau o ran goblygiadau ariannol y cynnig, yn enwedig mewn perthynas â chyfrif refeniw'r CTY, seilwaith TG a chyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r cyfraniadau cyfalaf y byddai angen i gronfa referiw'r CTY eu cefnogi yn cynnwys unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r prosiect. O fewn y prosiect MIM mae'r prosiect MIM craidd a'r elfennau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd yr elfennau cyfalaf yn cael eu hariannu gyda Llywodraeth Cymru gyda'r gyfradd ymyrraeth arferol o 65% i 35%. Yr elfen MIM yw 19% ALI i 81%. Mae'r elfen gyfalaf yn ymwneud â pharatoi'r safle gan gynnwys dymchwel. Mae lwfansau cynnar wedi'u dyrannu ar gyfer cyfalaf, mae'r gweddill yn dod o dan MIM. Bydd cyfraniad allan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer adleoli'r trac. Bydd hyn yn cael ei ariannu 100% yn hytrach na chael cyfradd gyfrannu gan Lywodraeth Cymru. O ran cyllidebau TG ac ysgolion dirprwyedig, ariennir y rhaglen Band B yn rhannol gan gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Nid oes ymrwymiad yn hyn o beth.

Prosiect Felodrom

Roedd yr Aelodau'n pryderu am yr effaith ar y cynlluniau ar gyfer yr ysgol pe na bai'r prosiect Felodrom yn mynd yn ei flaen.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y prosiectau wedi'u cyflwyno'n agos er mwyn sicrhau bod y ddau yn cael eu cysoni'n gywir. Byddai angen penderfyniad gan y Cabinet i fwrw ymlaen â'r ysgol cyn y gellid buddsoddi'n sylweddol yn y pentref chwaraeon. Dyrannwyd y gronfa wrth gefn i ariannu'r cyfalaf ar gyfer y trac.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd dyrannu'r gronfa CTY i ariannu'r trac yn gydnaws â'r canllawiau ar sut y dylid defnyddio'r cyllid hwnnw. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod felly ac y byddai'r gronfa wrth gefn yn ariannu'r cyllid cyfalaf. Mae adleoli'r trac yn hanfodol er mwyn i brosiect yr ysgol fynd rhagddo.

Craffu ar y broses ymgynghori

Roedd yr Aelodau'n pryderu am y gwaith o graffu ar y broses ymgynghori a gallu'r Pwyllgor i graffu mor llawn ag y byddai'n dymuno. Nid yw Aelodau'n teimlo mewn sefyllfa dda i graffu ar y cynnig mor fanwl ag yr hoffent ei wneud gan nad oes manylion penodol ar gael eto.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr un broses yn cael ei dilyn gyda phob datblygiad o ran cytuno ar egwyddor y cynigion. Roedd yn ddealladwy bod rhwystredigaeth nad oedd manylion y cynlluniau ar gael, ond byddai'r manylion hynny'n dilyn ar ôl cytuno ar yr egwyddor. Mae sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar y cynlluniau manylach a gyflwynir yn ystod y cam cyn cynllunio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod y safle wedi'i brofi i sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion a bod gwaith arolygu cynnar wedi'i wneud i sicrhau ei fod yn ddichonadwy. Byddai'r cam nesaf o lunio'r dyluniadau yn golygu costau sylweddol a byddai'n anodd bwrw ymlaen â hynny heb rywfaint o sicrwydd y byddai'r prosiect yn mynd rhagddo.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

Dywedodd y Cynghorydd Phillips fod ganddo ddiddordeb personol yn yr eitem hon gan fod ganddo aelod o'r teulu sy'n derbyn darpariaeth ADY

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (CTY)), a Michele Duddrige-Friedl (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio a Darpariaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad, pan dynnodd sylw at yr egwyddorion sy'n sail i'r cynigion ac atgoffodd yr Aelodau o ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol. Serch hynny, mae problem o ran darpariaeth arbenigol a CAA. Mae'n ddymunol bod plant yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth gywir ar gyfer lefel yr angen sydd ganddynt.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod prosesau cryf ar waith i barhau â dull cynhwysol y Cyngor. Roedd y prosiectau hyn ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn ehangu ei ddarpariaeth arbenigol oherwydd bod nifer uchel o blant a phobl ifanc y mae angen iddynt gael mynediad i'r amgylcheddau mwy arbenigol.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai'r cynigion cyfunol yn cyfrif am y diffyg lleoedd cyfan neu a fyddai angen ehangu ymhellach maes o law. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen darpariaeth bellach yn y dyfodol. Mae'r cynigion yn y papur presennol yn gofyn am broses ymgynghori statudol. Efallai y bydd eraill y gellid eu datblygu heb broses ymgynghori statudol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau darpariaeth gytbwys ar draws y ddinas.
- Nododd yr Aelodau gyllideb y tu allan i'r ddarpariaeth sirol ar gyfer 2021-22 a gofynnodd am eglurhad ar faint unrhyw ostyngiad yn y gyllideb darpariaeth y tu allan i'r sir. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn bosibl y byddai'r ddarpariaeth ychwanegol yn lleihau cynnydd pellach yn y gyllideb neu'n lleihau'r ddarpariaeth gyllidebol. Ni ellid dod i gasgliad hyd yma.
- Holodd yr Aelodau am yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad. Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r cynigion i gyd yn cael eu cyflwyno o dan yr un ymgynghoriad. Nid oedd y ffordd y byddent yn cael eu rhannu wedi'u cwblhau eto, ond y bwriad oedd cyflwyno'r ymgynghoriadau cyn gynted â phosibl. Mae angen cydbwysu'r awydd i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriadau mewn cyfnod byr gyda'r adnodd sydd ar gael. Nid yw'n bosibl cynnal nifer o ymgynghoriadau ar yr un pryd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

81 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: CYNLLUN STRATEGOL
CYMRAEG MEWN ADDYSG CAERDYDD (CSCA) 2022 - 2032
DIWEDDARIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (CTY)), a Michele Duddrige-Friedl (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio a Darpariaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad, pan gyfeiriodd yr Aelodau at y cyflwyniad a gawsant yn y cyfarfod blaenorol.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch a fu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ynghylch sut y gellid cynyddu argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bu sgysiau gyda Llywodraeth Cymru a Chonsortium Canolbarth y De ar y pwnc hwn. Bydd angen gwneud gwaith hefyd gyda darparwyr hyfforddiant i wneud newidiadau a gwelliannau sylweddol. Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno strategaeth gweithlu i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl mewn ysgolion a staff cyfrwng Cymraeg i addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae angen gweithio i gael dealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa yn yr ardal leol a'r rhesymau dros staff rhugl sy'n siarad Cymraeg nad ydynt yn teimlo'n hyderus i addysgu yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael trafodaethau gydag un o'r undebau athrawon a oedd yn gadarnhaol am y profiad y gallent ei rannu.
- Holodd yr Aelodau a fu ymgysylltu ag addysg uwch i fynd i'r afael â mater myfyrwyr nad oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cyrsiau prifysgol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Met Caerdydd yn bartner pwysig o ran eu rhaglen hyfforddi athrawon. Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod aelodaeth Bwrdd CSCA wedi cynyddu er mwyn gwella cyfranogiad y sector addysg uwch. Yn ogystal, mae ffyrdd eraill o gefnogi athrawon sy'n siarad Cymraeg. Gall cynorthwywyr addysgu symud ymlaen drwy'r cynllun graddedigion. Mae uwchsgilio'r gweithlu presennol yn bwysig. Mae hefyd angen ystyried y gweithlu ehangach. Efallai na fydd rhai athrawon a oedd yn agored i addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru mwyach ac roedd yn bwysig ystyried sut i'w hannog i ddod i Gaerdydd.
- Holodd yr Aelodau ynghylch pa drafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai fod gwared o 24% mewn manau cyfrwng Saesneg. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen rhoi cynlluniau hirdymor ar waith wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Bydd yn her dros gyfnod o 10 mlynedd i gyrraedd y targedau a nodir.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y strategaethau sy'n gysylltiedig â phwyntiau pontio, er enghraifft o'r feithrinfa i'r dderbynfa. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi symud o ymateb i'r galw i ysgogi'r galw fel rhan o'i strategaeth i annog addysg cyfrwng Cymraeg. Mae amrywiaeth o wybodaeth

glir yn hanfodol fel y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus. Mae angen i rieni allu gweld y daith o'r feithrinfa drwy addysg gynradd i addysg uwchradd. Lle mae rhieni wedi dewis rhoi eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg ar ba bwynt bynnag y mae angen sicrwydd ynghylch lefel y cymorth o fewn yr ysgol a mecanweithiau cymorth ehangach o amgylch yr ysgol i gefnogi caffael iaith yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch a oedd patrymau defnyddio yn gyson ar draws y ddinas. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhai meysydd lle mae llawer mwy o alw drwy gyfrwng y Gymraeg ac ardaloedd a chymunedau eraill sydd â llai o ddefnydd. Mae angen ystyriaeth fanwl a gweithgarwch ymgysylltu i ddeall pam nad yw'r cymunedau hynny sy'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg yn briodol ar eu cyfer.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am gymorth rhieni mewn perthynas â dysgu Cymraeg. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod lefel benodol o ddsbarthiadau'n cael eu cynnig ar hyn o bryd. Yn ogystal â gwersi Cymraeg i deuluoedd, mae pobl yn gallu cael mynediad at ddysgu Cymraeg drwy gyflogaeth. Byddai'r Cyngor, ar y cyd ag addysg bellach a phartneriaid eraill, am ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael.
- Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd lledaenu argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod cyfle wedi'i gollu wrth adeiladu ysgolion newydd mewn cymunedau newydd i fynd y tu hwnt i'r targed o 50%. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r egwyddor a amlinellwyd oedd o leiaf 50%. Mewn perthynas â'r CDLI gellid ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys ffrwd ddeuol gyfrwng Cymraeg i gyd. Nid yw darpariaeth uwch wedi'i hatal. Y targed ar draws Caerdydd yw 40% sy'n darged cenedlaethol. Byddai'r Cyngor yn edrych ar y galw gan gymunedau. Y cynllun presennol yw'r cynllun 10 mlynedd cyntaf ar y ffordd tuag at gyrraedd targed 2050. Byddai'r Cyngor yn disgwyl i sefydlu ysgolion Plasdŵr sydd â darpariaeth iaith ddeuol gael effaith o ran yr hyn y mae teuluoedd ei eisiau a symud y gymuned ar hyd y continwwm dwyieithog mewn ffordd nad oeddent wedi'i rhagweld. Disgwylir i ddatblygiad y model herio canfyddiadau am yr hyn y gall addysg cyfrwng Saesneg ei gynnig, ynghyd â newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Ailadroddodd yr Aelodau eu pryder y gallai fod yn haws sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn ehangach mewn ysgolion newydd mewn cymunedau newydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cynlluniau ysgolion yn cael eu cyflwyno dros amser. Er mai'r bwriad yw annog pobl i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, ni fyddai'n bosibl adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig os nad oes lefel y galw o fewn cymunedau. Mae hefyd yn bwysig peidio â thandorri ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol. Mae'r targed o 50% o leiaf yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

82 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

83 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

84 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor yw dydd Mawrth 9 Tachwedd 2021 am 4.30 pm drwy MS Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm